❖ Cadwn Ŵyl

Cadwn ŵyl i gofio'r Baban
Yn ei grud ym Methlem dref,
A'r Fendigaid Fam yn gwylio'i
Phlentyn o dan wenau'r nef;
Cyd-nesawn yng ngolau'r Seren
Fel y doethion llon eu gwedd,
Ac ymgrymu mewn rhyfeddod
I addoli T'wysog Hedd.

Cyd-wrandawn ar gôr yr engyl
Yn rhoi clod uwch bryn a dôl,
Hithau Mair yn suo-ganu
I'r un bychan yn ei chôl;
Gwyliwn newydd wawr yn ymlid
Hirnos, i ddatgloi y pyrth
Yn Effrata, fel y gallo'r
Syn fugeiliaid weld y wyrth.

Awn yng nghwmni'r pererinion,
Nid yw siwrnai serch yn faith:
Caiff y gweiniaid nerth a nodded
I gyrhaeddyd pen y daith.
Yno'n llety yr anifail
Gwelwn anfonedig Duw –
Iesu annwyl, ein Gwaredwr,
Unig obaith dynol ryw.

T. Elfyn Jones